# PWYLLGOR PERSONÉL

**(Ystafell Bwyllgora 1/2 - Port Talbot Civic Centre)**

| **Aelodau'n Bresennol:** | **Dydd Llun, 24 Chwefror 2020** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Councillor D.Jones** |
| **Is-gadeirydd:** | **Councillor D.Cawsey** |
| **Cynghorwyr**: | R.G.Jones, E.V.Latham, S.Miller, S.Bamsey, J.Hale a/ac N.T.Hunt |
| **Aelodau nad ydynt yn Pleidleisio:** | Councillors P.D.Richards, C.Clement-Williams a/ac P.A.Rees |
| **Swyddogion yn Bresennol:** | S.Rees, D.Hopkins a/ac J.Woodman-Ralph |

---

1. **Rhagarweiniad i bolisi Gofalwr**

Cafodd y Pwyllgor wybodaeth am gyflwyno Polisi Gofalwyr fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Nod y Polisi oedd cefnogi gweithwyr â chyfrifoldebau gofalu.

Cafwyd cadarnhad mai dim ond 1 cais am addasiad gwaith fyddai'n cael ei ystyried bob blwyddyn, ond mewn amgylchiadau eithriadol, gellid apelio yn erbyn penderfyniadau. Roedd y broses apelio yn hyblyg a byddai amgylchiadau lliniarol yn cael eu hystyried ar sail unigol.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cyflwyno'r Polisi Gofalwyr fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

2. **Rhaglenni Prentisiaid a Phrofiad Gwaith yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot**

Derbyniodd yr Aelodau wybodaeth am y rhaglenni prentisiaid a phrofiad gwaith yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Dylid nodi'r adroddiad.

3. **Cofrestru Gweithwyr Gofal Cartref**

Derbyniwyd gwybodaeth am Gofrestru Gweithwyr Gofal Cartref fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Yn flaenorol, dywedwyd na fyddai'r awdurdod yn ad-dalu unrhyw ffïoedd cofrestru pellach, ond, ar ôl i gynrychiolwyr undebau llafur dynnu sylw at y ffaith bod y gweithlu Gofal Cartref yn cynnwys gweithwyr benywaidd rhan-amser yn bennaf, cytunwyd ag undebau llafur y byddai'r awdurdod yn talu 50% o'r ffi gofrestru. Ailadroddwyd mai taliad 'untro' oedd hwn ac ni fyddai'n berthnasol i unrhyw gofrestriadau pellach sy'n digwydd ar ôl 1 Ebrill 2020.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo ad-dalu 50% o'r ffi gofrestru i weithwyr Gofal Cartref, sef £20.00 fesul cofrestrydd, ar gyfer pob cofrestriad a gwblhawyd o fewn dyddiad cau gorfodol Gofal Cymdeithasol Cymru, sef 1 Ebrill 2020.

4. **Cyflwyno Cynllun Cyfweliadau Gwarantedig ar gyfer Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog**

Derbyniodd y Pwyllgor wybodaeth am y Cynllun Cyfweliadau Gwarantedig ar gyfer Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog, fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cafwyd cadarnhad y byddai'r cynnig yn berthnasol i swyddi gwag sy'n cael eu hysbysebu'n allanol yn unig.

**PENDERFYNWYD:** Rhoi'r Cynllun Cyfweliadau Gwarantedig ar gyfer Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog ar waith, fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

5. **Trefniadau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd 2020/21**

Derbyniodd yr Aelodau'r trefniadau agor/cau ar gyfer y prif Swyddfeydd Dinesig ar gyfer cyfnod gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd 2020/2021, fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r diwrnodau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Llun | 21 Rhagfyr 2020 | Diwrnod gwaith arferol |
| Dydd Mawrth | 22 Rhagfyr 2020 | Diwrnod gwaith arferol |
| Dydd Mercher | 23 Rhagfyr 2020 | Diwrnod gwaith arferol |
| Dydd Iau | 24 Rhagfyr 2020 | AM - Swyddfeydd ar gau - yn ofynnol i'r holl weithwyr ddefnyddio hanner diwrnod o wyliau blynyddol (*)<br>Swyddfeydd yn cau am 1pm, rhoddir absenoldeb arbennig ar gyfer hyn |
| Dydd Gwener | 25 Rhagfyr 2020 | Gŵyl y Banc Dydd Nadolig |
| | | |
| Dydd Llun | 28 Rhagfyr 2020 | Gŵyl y Banc Gŵyl San Steffan |
| Dydd Mawrth | 29 Rhagfyr 2020 | **Diwrnod Gwyliau Blynyddol ychwanegol (*)** |
| Dydd Mercher | 30 Rhagfyr 2020 | **Diwrnod Statudol Ychwanegol** |
| Dydd Iau | 31 Rhagfyr 2020 | Swyddfeydd ar gau – yn ofynnol i bob gweithiwr ddefnyddio un diwrnod o wyliau blynyddol (*) |
| Dydd Gwener | 1 Ionawr 2021 | Gŵyl y Banc Dydd Calan |

6. **<u>Adroddiad Gwybodaeth am y Gweithlu</u>**

Derbyniodd yr Aelodau wybodaeth am Adroddiad Gwybodaeth am y Gweithlu Chwarter 3 2019/20 fel a nodir yn atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd yr Aelodau'n falch ein bod yn y 7fed safle o hyd yng Nghymhariaeth Perfformiad Absenoldeb oherwydd Salwch 2018-2019 – data Cymru Gyfan. Cafwyd trafodaeth am yr amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddiwyd gan gynghorau ledled Cymru sy'n effeithio ar y data, ac o ganlyniad a oedd y data yn offeryn dibynadwy i'w ddefnyddio fel cymhariaeth. Gofynnodd yr Aelodau i waith gael ei

wneud i edrych ar wahanol ymagweddau'r ddau awdurdod gorau, ac i ganlyniadau'r gwaith hwnnw gael eu cyflwyno mewn cyfarfod o'r pwyllgor hwn yn y dyfodol.

Cafwyd trafodaeth bellach ar y broses atgyfeirio i Iechyd Galwedigaethol ac a oedd rhinwedd mewn edrych ar ddewis arall yn lle absenoldeb salwch, er enghraifft absenoldeb arbennig, absenoldeb anabledd.  Canlyniadau i'w cyflwyno mewn cyfarfod o'r pwyllgor hwn yn y dyfodol.

Esboniwyd bod Adnoddau Dynol yn sicrhau bod cysondeb yn y dull a gymerir o ran salwch, ond bod arddulliau rheoli yn wahanol wrth weithredu'r polisi.

**PENDERFYNWYD:** Dylid nodi'r adroddiad.

7. **Datganiad Polisi Tâl 2020/2021**

Derbyniwyd gwybodaeth am y Datganiad Polisi Cyflog ar gyfer 2020/2021 fel a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWY:** Nodi'r adroddiad a'i gyflwyno i'r cyngor ym mis Mawrth 2020 i'w gymeradwyo.

8. **Cam Gweithredu Brys: Cynnydd yn y Cyfradd Wrth Gefn**

Cafodd y pwyllgor fanylion am gam gweithredu brys y swyddog - rhif 0319 ynghylch y Cynnydd yn y Gyfradd Wrth Gefn fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWY::** Dylid nodi'r adroddiad.

9. **Mynediad i gyfarfodydd**

**PENDERFYNWYD:** Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 15 o Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

10. **Trafodaethau Cyflog Cenedlaethol**

Cafodd y pwyllgor wybodaeth mewn perthynas â'r trafodaethau cyflog cenedlaethol fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn breifat.

**PENDERFYNWYD:** Dylid nodi'r adroddiad.

11. **<u>Tâl Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc</u>**

Tynnwyd yr adroddiad yn ôl o'i ystyried yn y cyfarfod heddiw.

**CADEIRYDD**